

***Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso
Ariannol***

Mawrth 2014

CYNNWYS

Rhagair	3
Fframwaith ariannu newydd i Gymru	5
Datganoli ardrethi annomestig (busnes) yn llawn	7
Treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi	9
Cyfradd treth incwm Gymreig	14
Creu trethi datganoledig newydd	22
Rheoli'r pwerau i godi trethi	24
Benthyca cyfalaf	26
Trefniadau rhynglywodraethol	28
Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS)	29

RHAGAIR

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Cymru yn y Senedd heddiw. Mae ein deddfwriaeth yn garreg filltir bwysig i Gymru, gan ddangos ymrwymiad y Llywodraeth i gryfhau datganoli yng Nghymru a swyddogaeth Cymru yn y Deyrnas Unedig.

Ym mis Tachwedd 2013 roedd y Llywodraeth wedi derbyn bron i bob un o'r argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) yn ei adroddiad cyntaf. Mae Bil Cymru yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol i ddatganoli pecyn o bwerau benthyca a threthu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") a Llywodraeth Cymru. Bydd y pwerau hyn yn rhoi rhagor o ffyrdd i Lywodraeth Cymru allu tyfu economi Cymru, helpu Cymru i gystadlu yn y ras fyd-eang ag adeiladu economi gryfach a chymdeithas decach. Yn hollbwysig, byddant hefyd yn cynyddu atebolrwydd ariannol y sefydliadau datganoledig drwy eu gwneud yn atebol am godi mwy o'r arian maent yn ei wario.


Mae'r Bil yn newid setliad datganoli Cymru mewn sawl maes, ac mae'r Papur Gorchymyn hwn yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y trefniadau newydd. Yn benodol, mae'n egluro sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r mesurau ariannol sydd wedi'u nodi yn Rhan 2 o'r Bil. Mae'n disgrifio sut bydd y newidiadau deddfwriaethol yn gweithio'n ymarferol a'r newidiadau ymarferol sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon.

Carem ddiolch i Gomisiwn Silk am ei waith caled a'i ymroddiad wrth baratoi dadansoddiad mor fanwl o agweddau ariannol datganoli yng Nghymru, a'r Pwyllgor Materion Cymreig am graffu'n drwyadl ar fersiwn drafft Bil Cymru cyn y broses ddeddfu. Rydym yn ffyddiog bod cynnwys y Papur Gorchymyn hwn yn ateb cais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am gynigion y Llywodraeth.

Bydd Bil Cymru, ynghyd â'r cynlluniau ehangach sydd wedi'u hamlinellu yn y papur hwn, yn cryfhau'r sefydliadau democrataidd yng Nghymru, yn gwneud y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn fwy atebol i bobl Cymru ac yn eu galluogi i gefnogi twf economaidd cryfach.



**Y GWIR ANRH DAVID JONES AS
YSGRIFENNYDD GWLADOL
CYMRU**



**Y GWIR ANRH DANNY ALEXANDERAS
PRIF YSGRIFENNYDD I'R
TRYSORLYS**

Fframwaith ariannu newydd i Gymru

1. Ers datganoli ym 1999, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") wedi cael ei ariannu'n llwyr bron gan grant bloc gan Lywodraeth y DU. Mae referniw trethi ar draws y DU (gan gynnwys o Gymru) yn cael eu cronni'n ganolog, gyda chyfran yn cael ei hailddosbarthu i'r Cynulliad. Er bod gan y Cynulliad gyfrifoldeb a hyblygrwydd sylweddol i benderfynu sut i ddefnyddio'r arian hwn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi eu datganoli yng Nghymru, ychydig iawn o gyfrifoldeb a gafodd i ariannu ei wariant.
2. Yn 2011 sefydlodd y Llywodraeth y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn "Silk") i edrych ar y trefniadau ariannol a chyfansoddiadol yng Nghymru ac i argymhell sut y byddai modd eu gwella. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen i'r Cynulliad gael mwy o atebolrwydd ariannol tuag at bobl Cymru ond bod angen cadw'r sicrwydd a'r sefydlogrwydd o rannu adnoddau fel rhan o'r Deyrnas Unedig.
3. Roedd ymateb y Llywodraeth i adroddiad Rhan 1 Comisiwn Silk yn derbyn 30 o'r 31 o argymhellion (a wnaed i Lywodraeth y DU) yn llawn neu'n rhannol, gan osod allan ei chynlluniau i roi mwy o atebolrwydd ariannol i'r Cynulliad. Bil Cymru sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol i ddarparu'r newidiadau hyn, ac mae'r Papur Gorchymyn hwn yn rhoi manylion pellach am weithredu a gweithrediad pwerau trethu a benthyca newydd y Cynulliad.
4. O dan y trefniadau newydd hyn, bydd y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei chreu gan ddwy ffrwd ariannu ar wahân:
5. Bydd ffrwd ariannu newydd yn cynnwys referniw o ardrethi busnes, trethi wedi eu datganoli (treth trafodion tir Gymreig a threth tirlenwi Gymreig) ac, yn amodol ar refferendwm, cyfradd treth incwm Gymreig. Gyda chaniatâd Llywodraeth y DU, gallai'r Cynulliad hefyd ddeddfu i gyflwyno trethi datganoledig newydd yng Nghymru. Byddai'r referniw fyddai'n cael ei gynhyrchu o'r ffrwd ariannu hon, felly, yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Cynulliad.
6. Bydd yr ail ffrwd ariannu'n parhau i fod yn grant bloc gan Lywodraeth y DU ar sail fformiwla Barnett. Er bod Llywodraeth y DU yn cydnabod rhai o'r pryderon a leisiwyd ynghylch fformiwla Barnett, mae gan y system nifer o gryfderau. Rhennir adnoddau a risgiau ar draws y DU,

sy'n sicrhau bod gan y Cynulliad lefelau ariannu sefydlog i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Mae'r system hefyd yn syml, tryloyw ac effeithlon; gofynion hollbwysig ar gyfer unrhyw system ariannu. Blaenoriaeth Llywodraeth y DU yw lleihau'r diffyg cyllid ac nid oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddiwygio fformiwla Barnett cyn bydd y sefyllfa cyllid cyhoeddus wedi sefydlogi.

7. Fodd bynnag, roedd datganiad ar y cyd gan y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2012 yn sefydlu proses i adolygu lefelau ariannu cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr cyn pob adolygiad o wariant, a lle bo'n darogan y bydd cydgyfeirio'n ailddechrau, y dylid trafod opsiynau i roi sylw i'r mater hwn mewn ffordd deg a fforddiadwy. Mae'r trefniadau trylwyr hyn, felly, yn sail gadarn ar gyfer symud at y fframwaith ariannu newydd i Gymru, gan gynnwys datganoli treth incwm (os hyn fyddai canlyniad y refferendwm).
8. Ynghyd â datganoli'r pwerau newydd hyn i godi trethi, bydd angen addasu'r grant bloc i adlewyrchu'r refeniw llai a fyddai'n llifo i Drysorlys y DU. Mae'r Papur Gorchymyn yn nodi cynigion manwl y Llywodraeth ar gyfer cyfrifo'r addasiadau, yn gyson ag argymhellion y Comisiwn. Er y bydd y dull o addasu'r grant bloc treth incwm yn gwarchod y Cynulliad rhag effeithiau macro-economaidd ehangach 'ledled y DU' y byddai Llywodraeth y DU mewn sefyllfa well i'w rheoli, bydd angen i Lywodraeth Cymru reoli unrhyw amrywiad yn y refeniw o drethi datganoledig. Felly, mae'r trefniadau ariannu newydd yn cynnwys dulliau i helpu Llywodraeth Cymru i reoli'r diffyg sefydlogrwydd hwn, gan gynnwys cronfa arian parod wrth gefn a phwerau benthyca presennol.
9. Bydd y pwerau trethu newydd hyn hefyd yn darparu ffrwd refeniw annibynnol i gefnogi benthyca cyfalaf. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd pellach i Lywodraeth Cymru benderfynu pryd a sut i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn sbarduno twf economi Cymru. Cyn gweithredu'r pwerau benthyca cyfalaf newydd hyn, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau benthyca presennol, mwy cyfyngedig i gychwyn gwneud gwelliannau i'r M4.
10. Bydd cynlluniau'r Llywodraeth i ddarparu fframwaith ariannu newydd i Gymru felly'n grymuso a gwella atebolrwydd y Cynulliad a Llywodraeth Cymru'n sylweddol. I sicrhau y gweithredir y newidiadau sylfaenol hyn yn effeithlon ac effeithiol, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd, gan gynnwys creu pwyllgor Gweinidogol rhynglywodraethol dwyochrog.

Datganoli ardrethi annomestig (busnes) yn llawn

11. Mae Llywodraeth y DU eisiau datganoli ardrethi busnes yn llawn i'r Cynulliad ym mis Ebrill 2015. Bydd manylion gweithredu hyn yng nghyswllt y system gyllideb yn cael eu trafod â Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar ddyddiad terfynol i ddatganoli'r dreth hon yn llawn.
12. Mae gan y Cynulliad eisoes gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer ardrethi busnes yng Nghymru¹, a gall basio cyfreithiau i ddiwygio neu ddisodli'r system bresennol. Felly nid oes angen darparu ar gyfer hyn yn Bil Cymru. Fodd bynnag, o dan y trefniadau presennol, nid yw'r refeniw a gynhyrchir yn effeithio'n uniongyrchol ar faint o arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, pennir cyllideb Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar sail y gwariant sy'n cael ei ariannu gan ardrethi busnes yn Lloegr. Hynny yw, mae'r cyllid hwn wedi'i gynnwys yn y grant bloc sylfaenol ac mae Llywodraeth Cymru'n derbyn symiau canlyniadol Barnett lle mae lefel y gwariant awdurdod lleol a ariennir gan ardrethi busnes yn Lloegr yn newid. Felly, nid yw'r refeniw a gynhyrchir gan ardrethi busnes yng Nghymru'n effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid yw'r swm a gesglir ond yn effeithio ar faint o arian parod a drosglwyddir o Lywodraeth y DU.
13. Mae datganoli ardrethi busnes yn llawn, yn ôl argymhelliad Comisiwn Silk, yn golygu y bydd lefel y refeniw a gynhyrchir o ardrethi busnes yng Nghymru'n effeithio'n uniongyrchol ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Hynny yw, bydd Llywodraeth Cymru'n gallu gwario faint bynnag y codir gan ardrethi busnes yng Nghymru yn hytrach na faint a bennir gan ardrethi busnes yn Lloegr. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru'n elwa'n uniongyrchol o unrhyw dwf mewn ardrethi busnes ac yn rhoi cymhelliad pellach i ddatblygu'r economi.

Addasu'r grant bloc yng nghyswllt ardrethi busnes

14. Yn dilyn y cynsail a osodwyd pan gafodd ardrethi busnes eu datganoli'r llawn i'r Alban a Gogledd Iwerddon, bydd datganoli ardrethi busnes yn llawn yn golygu addasiad unwaith yn unig i grant bloc Llywodraeth Cymru, gyda dwy elfen i hyn:

¹ Mae Pennawd 12 yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys "cyllid llywodraeth leol" yn y rhestr o bynciau y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt. Mae hyn yn cynnwys ardrethi annomestig (busnes) a'r dreth gyngor.

- bydd swm yn cael ei dynnu o'r grant bloc sylfaenol, ac mae faint wrthi'n cael ei drafod rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yna'n gallu gwario faint bynnag y codir gan ardrethi busnes yng Nghymru yn hytrach na faint a bennir gan fformiwla Barnett; a
- bydd y ffactor cymhariaeth Barnett ar gyfer ardrethi busnes yng Nghymru'n cael ei newid o 100% yn 0%, hy, bydd symiau canlyniadol Barnett yn llai nag o dan y trefniadau presennol oherwydd bydd unrhyw newid i gyllideb Llywodraeth Cymru (yng nghyswllt ardrethi busnes) yn seiliedig ar y newid mewn refeniw o ardrethi busnes yng Nghymru yn hytrach nag yn Lloegr (drwy symiau canlyniadol Barnett).

Treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi

15. Mae Bil Cymru'n darparu ar gyfer datganoli treth dir y dreth stamp (SDLT) a'r dreth tirlenwi (LfT) yn llawn. Mae hyn yn golygu y bydd gan y Cynulliad reolaeth lwyr dros benderfynu sut ac a ddylid trethu trafodion tir a gwastraff a waredir i safleoedd tirlenwi. Ni fydd y SDLF a'r LfT yn gymwys mwyach yng Nghymru a dyna pryd y cyflwynir unrhyw drethi newydd. Bydd lleihad cyfatebol yn y grant bloc i adlewyrchu'r pwerau newydd hyn i godi refeniw, rhoddir manylion am hyn ym mharagraff 26 isod).
16. Ar sail trafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru, y bwriad yw dirwyn i ben y trethi 'ledled y DU' sy'n berthnasol i Gymru, o fis Ebrill 2018 ymlaen. Bydd y grant bloc yn cael ei addasu o'r pwynt hwn ymlaen, i adlewyrchu'r lleihad mewn refeniw y bydd Llywodraeth y DU yn ei dderbyn o'r trethi datganoledig hyn. Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar unrhyw drethi Cymreig newydd yn eu lle, yn amodol ar gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar ddyddiad terfynol i ddirwyn trethi'r DU i ben yng Nghymru.

Trethi Cymreig newydd

17. Bydd dyluniad y trethi datganoledig a sut y gweinyddir hwynt yn fater i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru.
18. Mater i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru fydd penderfynu sut y dylid casglu a rheoli'r trethi datganoledig. Mae Bil Cymru'n darparu bod HMRC yn gallu gweithredu'r trethi datganoledig ar ran Llywodraeth Cymru os yw hyn yn dderbyniol i'r ddwy ochr. Byddai telerau trefniant o'r fath yn rhai i'w cytuno arnynt rhwng HMRC a Llywodraeth Cymru.

Effaith datganoli ar drethdalwyr treth dir y dreth stamp

19. Bydd newid y baich cydymffurfio i drethdalwyr sy'n trosglwyddo tir yng Nghymru'n dibynnu ar ddyluniad y dreth ddatganoledig, sy'n fater i'r Cynulliad ei benderfynu ynghyd â Gweinidogion Cymru. Mae'r ffurflen SDLT bresennol eisoes yn nodi ym mha ardal awdurdod lleol y mae trafodiad tir yn digwydd ac, felly, bydd HMRC yn gallu nodi pa drafodion fydd y SDLT yn parhau i fod yn berthnasol iddynt. O ddyddiad y datganoli, ni fydd y ffurflen hon mwyach yn berthnasol i drafodion yng Nghymru ond bydd ei hangen o hyd, ac ni fydd angen ei diwygio, ar gyfer trafodion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

20. Efallai y bydd angen ffurflen dreth ar wahân ar gyfer trafodion tir yng Nghymru, gan ddibynnu ar ddyluniad y dreth a'r corff fydd yn ei chasglu. Mater i'r Cynulliad ei benderfynu, drwy weithio â Gweinidogion Cymru, fydd hyn. Nid oes rheswm mewn egwyddor pam ddylai'r baich cydymffurfio i drethdalwyr sy'n prynu un eiddo, mewn rhan benodol o'r DU, gynyddu. Bydd cyfres o reolau i Gymru, un i'r Alban ac un i Loegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n bosibl y bydd rhai sy'n prynu eiddo neu dir o boptu i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn gweld cynnydd yn eu baich cydymffurfio - os felly bydd yn cael ei drin fel dau drafodiad, un lle byddai'n rhaid talu'r SDLT a'r llall lle byddai'n rhaid talu'r dreth Gymreig ar drafodion tir. Byddai'r gwerth yna'n cael ei ddosrannu ar draws y ddau drafodiad ar sail eu gwerthoedd cymharol. Yn ogystal, gallai rhai sy'n prynu sawl eiddo yng Nghymru, yn yr Alban ac mewn rhannau eraill o'r DU fel rhan o un trafodiad weld cynnydd yn eu baich cydymffurfio oherwydd gallai fod angen hyd at dair ffurflen dreth.

21. Oherwydd y codir y dreth ddatganoledig ar drafodion tir yng Nghymru, bydd yn effeithio ar unrhyw un sy'n dewis prynu eiddo yng Nghymru, p'un ai ydynt yn byw yng Nghymru, yn yr Alban neu yn rhywle arall. Yn ymarferol, bydd unrhyw gynnydd neu leihad yn y baich gweinyddol yn effeithio ar weithwyr trawsgludo a chyfreithiol proffesiynol sy'n gweithredu ar ran y partïon sy'n dewis prynu eiddo yng Nghymru, cost a allai gael ei phasio ymlaen i'r prynwr.

22. Mae'r ffurflen SDLT yn casglu data ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisió (VOA) a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r system dreth ac ar gyfer gwaith cydymffurfio ehangach gan HMRC. O dan y Bil mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, os bydd HMRC yn gofyn iddi, ddarparu'r data hwn yn y dyfodol ar drafodion tir yng Nghymru, o wybodaeth fydd yn ei meddiant. Bydd y VOA yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau presennol yng Nghymru ar ôl datganoli'r dreth ar drafodion tir.

Effaith datganoli ar drethdalwyr y dreth tirlenwi

23. Nid yw'r ffurflen dreth LfT bresennol ledled y DU yn nodi lleoliad daearyddol y gweithgaredd sy'n cael ei drethu. Mae'n debyg y byddai angen ffurflen dreth ar wahân ar gyfer gwastraff i'w waredu mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru, gan ddibynnu ar ddyluniad y dreth a benderfynir gan y Cynulliad a pha gorff fydd yn gyfrifol am ei chasglu. Bydd y baich cydymffurfio ar weithredwyr tirlenwi yng Nghymru'n cael ei benderfynu gan y rheolau a bennir gan y Cynulliad a Llywodraeth

Cymru, a benderfynir ar sail dyluniad a sut fydd y dreth Gymreig ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi'n cael ei gweinyddu. Mewn egwyddor, ac yn amodol ar drefniadau manwl, ni ddylai fod llawer o gwbl neu ddim cynnydd yn y baich cydymffurfio i drethdalwyr sy'n gweithredu ar safle unigol mewn unrhyw ran o'r DU: bydd cyfres ar wahân o reolau ar gyfer Cymru, yr Alban a gweddill y DU. Gallai gweithredwyr tirlenwi sy'n rhedeg safle yng Nghymru ac mewn rhan arall o'r DU weld cynnydd yn eu baich cydymffurfio oherwydd gallai fod angen hyd at dair ffurflen dreth tirlenwi yn y dyfodol, yn lle un ar hyn o bryd.

24. Bydd angen nifer o fân-ddiwygiadau i'r gyfundrefn LfT bresennol ar ôl datganoli.

- Cafodd y gronfa cymunedau tirlenwi (LCF) ei sefydlu ochr yn ochr â'r LfT i fynd i'r afael â rhai o effeithiau tirlenwi drwy wella'r amgylchedd yng nghyffiniau'r safleoedd tirlenwi. Ariennir y gronfa hon gan gyfraniadau oddi wrth weithredwyr safleoedd tirlenwi, sy'n derbyn credyd LfT gwerth 90% o unrhyw gyfraniad cymwys a wneir ganddynt i gyrff amgylcheddol sy'n rhan o'r cynllun. Unwaith fydd y LfT wedi'i datganoli i Gymru, ni fydd gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru'n gymwys mwyach i dderbyn credyd LfT y DU, fydd wedyn ond ar gael am gyfraniadau sy'n fanteisiol i'r amgylchedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Pan fydd y dreth yn cael ei datganoli, bydd gan gyrff amgylcheddol arian heb ei wario o'r cyfraniadau hyn gan weithredwyr tirlenwi ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Am ddwy flynedd ar ôl i'r dreth hon gael ei datganoli, rhoddir caniatâd i wario'r arian hwn ar brosiectau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Golyga hyn y gellir defnyddio unrhyw gyfraniadau a wneir yn sgil gweithgareddau tirlenwi yng Nghymru ar brosiectau yn yr ardal honno.
- Mae LfT yn un o'r prif ddulliau a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyrraedd ei tharged lleihau tirlenwi yn 2020 o dan y Gyfarwyddeb Tirlenwi (ar gyfer gwastraff trefol pydradwy). Gallai Gwledydd yr UE gael eu dirwyo am fethu â chyrraedd eu targed. Mae'n annhebyg y byddai'r DU yn methu â chyrraedd ei tharged lleihau tirlenwi dim ond oherwydd y newidiadau i bolisi treth tirlenwi yng Nghymru, ond os byddai hynny'n digwydd bydd y Llywodraeth yn ceisio adennill y gost hon gan Lywodraeth Cymru.

Cost datganoli treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi i Lywodraeth Cymru

25. Bydd y ddwy dreth yn cael eu datganoli'n llwyr a'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru fydd yn gwbl gyfrifol am ddyluniad y trethi a'r trefniadau ar gyfer eu casglu. Bydd Llywodraeth y DU yn cael trafodaeth fwy manwl â Llywodraeth Cymru am y gost bosibl i HMRC o weithredu'r newidiadau i'r systemau SDLT a LfT presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n ymwneud â datganoli SDLT a LfT (net o'r arbedion i Lywodraeth y DU sy'n deillio o'r ffaith na fydd y trethi hynny'n cael eu casglu na'u gweinyddu yng Nghymru mwyach) yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i leihau unrhyw gostau o'r fath.

Addasu'r grant bloc yng nghyswllt treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi

26. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad Comisiwn Silk na ddylai addasu'r bloc grant gael ei fynegi yn erbyn sylfaen drethi gyfatebol y DU.

27. Bydd hyn felly'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb llawn am reoli natur ansefydlog y refeniw o'r trethi datganoledig (a bydd dulliau rheoli trethi newydd yn cael eu darparu i wneud hyn) i Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn llawer symlach i'w weithredu na mynegeio parhaus. Fodd bynnag, nid yw'n gwbl rwydd nodi union natur (na maint) addasiad o'r fath y byddai'r ddwy lywodraeth yn debygol o gytuno arno fel addasiad teg yn y tymor hirach.

28. Pwrpas yr addasiad yw lleihau'r grant bloc ar sail y lleihad mewn refeniw i Lywodraeth y DU o ganlyniad i ddatganoli trethi. Gall Llywodraeth Cymru yna benderfynu a ddylid (a sut) i adennill y cyllid hwn drwy godi trethi datganoledig. Y nod felly yw datblygu dull addasu sy'n adlewyrchu nid yn unig y refeniw a gynhyrchir ar yr adeg y datganolir y trethi ond hefyd y rhagolygon disgwylidig mwy hirdymor. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod datganoli'r trethi hyn yn deg i Gymru ac i weddill y DU, er y gallai'r addasiad hefyd gael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

29. Er nad oes cynsail i wneud cymhariaeth uniongyrchol, man cychwyn defnyddiol yw'r addasiad i'r grant bloc a wnaed ochr yn ochr â

datganoli ardrethi busnes i'r Alban a Gogledd Iwerddon (ac a ddefnyddir hefyd pan ddatganolir ardrethi busnes yn llawn i Gymru). Ni ellir cymhwyso hyn yn uniongyrchol yn ehangach oherwydd mae gan wariant a ariennir gan ardrethi busnes (lle defnyddir y refeniw hwn i ariannu gwariant lleol) ffactor cymhariaeth Barnett penodol nad yw'n berthnasol i'r un dreth arall.

30. Mae'r dull o addasu'r grant bloc ar gyfer datganoli ardrethi busnes wedi'i osod allan yn adran 14. Yn fyr, mae hyn yn golygu tynnu swm o'r grant bloc sylfaenol a lleihau unrhyw symiau Barnett canlyniadol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y grant bloc yn ariannu cyfran lai o wariant Llywodraeth Cymru, gyda Llywodraeth Cymru wedyn yn cadw'r refeniw o ardrethi busnes (gan gynnwys unrhyw dwf yn y refeniw hwn). Yn debyg i'r cymhellion a gyflawnir drwy fynegeio'r addasiad treth incwm, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru'n elwa o'r dull hwn pan fydd ardrethi busnes yn tyfu'n gynt yng Nghymru na symiau canlyniadau Barnett yn dilyn newid ardrethi busnes yn Lloegr.
31. O weithredu egwyddorion allweddol y dull hwn, byddai'n bosibl addasu'r grant bloc ar gyfer treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi yn ogystal â thynnu swm o'r grant bloc sylfaenol a symiau canlyniadol Barnett fymryn yn llai. Gyda'r elfen olaf, er bod gan ardrethi busnes ffactorau cymhariaeth Barnett yn berthnasol iddynt (ac nid oes gan drethi eraill), gellid cyflawni effaith debyg mewn ffordd arall – er enghraifft drwy leihau'r holl symiau canlyniadol Barnett o ganran fechan, i adlewyrchu'r gyfran o wariant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei hariannu gan y trethi datganoledig. Byddai twf y trethi datganoledig, felly, yn llenwi'r bwch fydd wedi'i adael gan y symiau canlyniadol Barnett llai.
32. Mae'r Llywodraeth yn parhau i drafod y cynnig hwn, ac opsiynau eraill, gyda Llywodraeth yr Alban ac erbyn hyn wedi cychwyn trafodaethau tebyg â Llywodraeth Cymru.

Cyfradd treth incwm Gymreig

33. Gan ddibynnu ar ganlyniad refferendwm yng Nghymru ar gyflwyno cyfradd treth incwm Gymreig, bydd prif gyfraddau treth incwm y DU yn cael eu lleihau o 10c i rai a ddiffiniwyd fel trethdalwyr yng Nghymru, a bydd y Cynulliad yn gallu gosod, yn flynyddol, cyfradd treth incwm Gymreig newydd fydd yn cael ei hychwanegu at y cyfraddau llai ar gyfer y DU. Bydd gweddill y strwythur treth incwm yn aros yn fater na fydd wedi'i ddatganoli, ac yn parhau i gael ei benderfynu gan Senedd y DU.
34. Er bod Comisiwn Silk wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gallu gosod cyfraddau treth incwm Cymreig ar wahân ar gyfer pob un o'r tri band, barn y Llywodraeth yw mai un gyfradd Gymreig ar gyfer y tri band (fel sy'n cael ei chyflwyno yn yr Alban) yw'r system fwyaf priodol i Gymru.
35. Mae'r Llywodraeth yn credu'n bendant bod y strwythur treth incwm yn ddull allweddol o ailddosbarthu cyfoeth ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, a dyma pam mai ar lefel y DU y dylid penderfynu orau sut ddylai'r system hon symud yn ei blaen. Mae cynnwys y system 'cyd-gerdded' hefyd yn gyson â'r egwyddor na ddylai datganoli ariannol elwa un rhan o'r DU ar draul rhan arall – gallai hyn ddigwydd pe bai Llywodraeth Cymru'n gallu gosod cyfradd sylweddol is ar gyfer trethdalwyr uwch / ychwanegol heb fod angen newid y gyfradd sylfaenol (gan felly ddenu pobl sy'n ennill mwy i groesi'r ffin, gan elwa Cymru ar draul y DU yn gyffredinol).
36. Barn y Llywodraeth, felly, yw bod y system cyd-gerdded yn sicrhau'r manteision allweddol sydd mewn golwg gan y Comisiwn (gan roi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ar drethi a gwariant, a chynyddu hefyd ei hatebolrwydd am ariannu ei gwariant) ond eto'n cadw strwythur ailddosbarthu sy'n gyson ar draws y DU a lleihau unrhyw risg gysylltiedig o gystadlu trethi.
37. Bydd grant bloc Llywodraeth Cymru'n cael ei leihau i adlewyrchu'r pwerau newydd hyn i godi refeniw, yn defnyddio'r dull tynnu wedi'i fynegeio sy'n cael ei argymhell gan Gomisiwn Silk. Rhoddir y manylion o baragraff 52 isod ymlaen. Yn dilyn pleidlais refferendwm o blaid datganoli treth incwm yn rhannol, bydd y Trysorlys yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar ddyddiad i gyflwyno cyfradd treth incwm Gymreig.

Gweithredu cyfradd treth incwm Gymreig

38. Mae'r Bil yn pennu y byddai'r gyfradd treth incwm Gymreig newydd yn cael ei chasglu gan HMRC, yn defnyddio'r systemau treth incwm Hunanasesiad a PAYE presennol. Os cyflwynir y gyfradd Gymreig, bydd HMRC yn gweithio'n agos â'r holl bartïon y gallai'r newid hwn effeithio arnynt (yn benodol Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn cynnwys adrannau eraill o Lywodraeth y DU).

Penderfynu ar gyfradd treth incwm Gymreig

39. Byddai angen i'r Cynulliad osod cyfradd newydd Gymreig bob blwyddyn, gyda chynnig yn cael ei basio mewn pryd fel y gellid casglu'r trethi ar ddechrau pob blwyddyn dreth. Er mwyn lleihau'r gost i HMRC ac i gyflogwyr y mesurau gweinyddol a chydymffurfio angenrheidiol, byddai angen i'r gyfradd ar gyfer blwyddyn dreth benodol gael ei chyfathrebu'n ffurfiol i Lywodraeth y DU erbyn diwedd Tachwedd yn y flwyddyn galendr flaenorol. Pe bai oedi gyda chyhoeddi'r gyfradd, byddai angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar gyfradd dybiaethol er mwyn galluogi HMRC i gyhoeddi codau TWE i gyflogwyr a gweithwyr gan ystyried y gyfradd ar gyfer Cymru. Byddai'r amserlen hon yn lleihau'r baich cydymffurfio i drethdalwyr hefyd. Yna byddai angen i'r gyfradd gael ei phasio gan y weithdrefn briodol yn y Cynulliad erbyn 5 Ebrill fan bellaf, i ddarparu sail statudol ar gyfer casglu derbynebaw treth o ddechrau'r flwyddyn dreth ymlaen. (Mae'n bosibl i gynnig gael ei basio yn gosod cyfradd wahanol i'r un gafodd ei chyhoeddi'n flaenorol, er y byddai hyn yn cynyddu'r costau). Unwaith fyddai'r dyddiad hwn wedi pasio, ni fyddai'n bosibl canslo na diwygio'r cynnig.

40. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos â'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod paramedrau cylchoedd cyllideb blynyddol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cefnogi'r broses hon.

Y gost o ddarparu cyfradd treth incwm Gymreig

41. Fel y nodir yn Natganiad Polisi Ariannu Trysorlys EM, Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r gost fydd yn gysylltiedig â datganoli treth incwm. Mae'r Bil yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru'n gallu ad-dalu HMRC am y gost ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal cyfradd treth incwm Gymreig. Y costau a fyddai'n cael eu codi ar Lywodraeth Cymru fyddai'r costau ychwanegol (a elwir weithiau'n gostau 'ymylol') o weithredu'r gyfradd Gymreig. Ni fyddai costau a

fyddai wedi'n disgyn ar HMRC beth bynnag, fel yn ymwneud â threth incwm yng Nghymru'n gyffredinol, yn cael eu pasio ymlaen.

Effaith y gyfradd treth incwm Gymreig ar drethdalwyr a busnesau

42. Os cyflwynir y gyfradd Gymreig, bydd HMRC yn ymgynghori ar nifer o faterion yn ymwneud â gweithrediad manwl y gyfradd treth incwm Gymreig. Bydd hwn yn pwysu ar gasgliadau ymarferion ymgynghori tebyg ar gyflwyno cyfradd treth incwm yr Alban, a arweiniodd at gyhoeddi Nodyn Technegol HMRC² ym mis Mai 2012. Er mwyn lleihau'r beichiau gweinyddol ar fusnesau ac unigolion ar draws y DU, byddai HMRC yn disgwyl i'r rheolau ar gymhwyso'r cyfraddau treth incwm yng Nghymru ac yn yr Alban fod yr un fath (oni bai fod rhesymau da dros eu trin yn wahanol).

43. Mae'r Asesiad o Effaith (IA) sy'n cyd-fynd â Bil Cymru'n cynnwys asesiad o effaith y gyfradd treth incwm Gymreig newydd arfaethedig.

Diffiniad o drethdalwr Cymreig

44. Byddai'r gyfradd treth incwm Gymreig yn cael ei chodi ar drethdalwyr sy'n byw yn y DU ac a ddiffiniwyd fel trethdalwyr Cymreig; rhai lle mai Cymru yw eu cysylltiad agosaf. Diffinnir cysylltiad agos â Chymru fel rhywun sydd yn byw ond yng Nghymru neu, ar gyfer unigolion gyda mwy nag un man preswyl, sydd â'u prif gartref preswyl yng Nghymru am gyfnod hwy na'r un rhan arall o'r DU mewn blwyddyn dreth. Yn ogystal, bydd Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaeth yng Nghymru yn y Senedd neu aelod sy'n cynrychioli Cymru yn Senedd Ewrop hefyd yn drethdalwyr Cymreig.

Llog a chosbau

45. Un o nodweddion presennol y system dreth yn y DU yw codi llog ar drethi a delir yn hwyr. Rhaid i HMRC dalu llog ar ordaliadau treth a chodi llog ar daliadau hwyr. Oherwydd y byddai Llywodraeth Cymru'n gallu gwario trethi sydd wedi eu darogan, Trysorlys y DU ac nid Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am reoli effaith unrhyw ordaliad treth neu dreth a delir yn hwyr. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i Lywodraeth Cymru gyda rheoli ei chyllid. Felly, ni fyddai taliadau llog yn cael eu cynnwys fel rhan o'r refeniw a fyddai'n cael ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn hefyd yn symleiddio'r ochr weinyddol. Er enghraifft, lle byddai rhandaliad wedi'i wneud, ni fyddai angen

² <http://www.hmrc.gov.uk/news/technote-scot-taxrate.pdf>

ystyried a oedd elfen Cymru, Lloegr neu'r Alban o ddyled treth incwm wedi'i thalu. Felly hefyd, ni fyddai unrhyw log a delir gan HMRC i drethdalwyr oherwydd gordaliad treth yn cael ei godi ar Lywodraeth Cymru.

46. Mae HMRC hefyd yn gweinyddu nifer o gosbau i'r pwrpas o atal a diogelu system drethi'r DU. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cosbau am dalu'n hwyr (ar ben y llog a godir am dalu'n hwyr), ffeilio'n hwyr a ffurflen dreth anghywir, a'u bwriad yw annog trethdalwyr i gwrdd â'u hymrwymiaid o ran llenwi ffurflenni treth neu dalu trethi sy'n ddyledus. Mae'r refeniw a gronnir o'r cosbau hyn, felly, yn gysylltiedig â gweinyddu'r system drethi gan HMRC ac ni fyddai'n cael ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru.

Treth incwm ar gynilion a dosbarthiadau

47. Ni fyddai'r gyfradd Gymreig yn cael ei chymhwyso i incwm o gynilion a dididend. Mae Comisiwn Silk wedi cydnabod bod y newidiadau y byddai angen eu gwneud i gymhwyso'r gyfradd Gymreig i dreth incwm ar gynilion a dosbarthiadau'n afresymol. Byddai'r gyfradd Gymreig felly'n cael ei chymhwyso i incwm di-gynilion a di-ddidend (NSND) trethadwy.

Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a HMRC

48. Mae'r Comisiwn wedi nod bod angen perthynas ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad a HMRC, oherwydd un o swyddogaethau HMRC fyddai casglu'r gyfradd treth incwm Gymreig. Byddai'r berthynas rhwng HMRC a Llywodraeth Cymru ar dreth incwm yn cael ei gosod allan mewn Memorandwm Dealltwriaeth, a fyddai'n cael ei gyhoeddi cyn gweithredu. Byddai hefyd angen Memoranda ar wahân i ddiffinio'r berthynas rhwng HMRC a Llywodraeth Cymru ar y trethi oedd i'w datganoli'n llawn.

49. O dan y Bil, rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar weinyddiaeth HMRC o'r gyfradd Gymreig. Byddai HMRC hefyd yn cynhyrchu detholiad o'u cyfrifon ar gyfer y Cynulliad, yn dangos yr incwm a'r gwariant oedd yn gysylltiedig â'r gyfradd treth incwm Gymreig.

50. Byddai Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn HMRC yn benodol atebol am gasglu'r gyfradd treth incwm Gymreig. Byddai'r Swyddog

Cyfrifyddu Ychwanegol ar gael i roi tystiolaeth i'r Cynulliad ar sut oedd HMRC yn gweithredu'r gyfradd Gymreig.

Effaith ar adrannau eraill o Lywodraeth y DU

51. Os yw'r Cynulliad yn dewis amrywio'r gyfradd treth incwm Gymreig fel bo'r cyfraddau cyfunol yng Nghymru'n wahanol i'r cyfraddau ar draws y DU, gallai hyn effeithio ar bolisiâu ehangach Llywodraeth y DU lle mae anghenion unigolion yn cael eu cyfrifo net o dreth incwm, fel budd-daliadau cysylltiedig ag incwm, gan gynnwys y Credyd Cynhwysol newydd. Byddai darlun mwy llawn o'r effeithiau posibl hyn yn cael ei greu gydag adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, wrth nesáu at refferendwm ac wrth i bolisi gael ei ddatblygu. Lle gallai gwahanol gyfraddau treth arwain at fwy neu lai o rwymedigaethau i Lywodraeth y DU, glynir wedyn at yr egwyddor a nodir yn y polisi Datganiad Cyllid sef 'y corff y bydd ei benderfyniad yn arwain at y gost ychwanegol fydd yn cwrdd â'r gost honno'. Byddai HMRC ac adrannau perthnasol eraill yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar faint a goblygiadau unrhyw gostau o'r fath.

Addasu'r grant bloc yng nghyswllt treth incwm

52. Os gweithredir y gyfradd treth incwm Gymreig yn dilyn refferendwm, mae'r Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad Comisiwn Silk y dylid addasu'r grant bloc drwy ddefnyddio'r dull tynnu wedi'i fynegeo a gynigiwyd yn wreiddiol gan Gomisiwn Holtham. Fel y nodwn isod, mae'r dull hwn yn helpu i gynyddu atebolrwydd Llywodraeth Cymru ac yn gwarchod Cymru rhag effeithiau ledled y DU y byddai Llywodraeth y DU mewn sefyllfa well i'w rheoli, gan sicrhau y bydd cyllid sicr a sefydlog yn dal i fod ar gael i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd manylion gweithredu'r system hon yn cael eu trafod â Llywodraeth Cymru.

53. Mae dwy elfen i'r dull hwn - addasiad blwyddyn gyntaf ac yna mynegeo'r swm hwn yn erbyn twf sylfaen drethi gyfatebol y DU (hy, incwm di-gynilion a di-ddifidend trethadwy) i benderfynu'r addasiad mewn blynyddoedd i ddilyn. Drwy fynegeo yn erbyn y sylfaen drethi yn lle referniw trethi neu gyfanswm incwm, mae Comisiwn Silk wedi cydnabod bod hyn "yn ymgorffori'n awtomatig yr egwyddor o 'ddim niwed'" fel y gwneir hefyd yn yr Alban³. Mae hyn oherwydd y bydd

³ Roedd y cymal 'dim niwed' ym Mhapur Gorchymyn Bil yr Alban yn seiliedig ar ddefnyddio dull gwahanol o addasu'r grant bloc, dull na fyddai'n awtomatig wedi ymgorffori'r egwyddor o 'ddim

sylfaen drethi'r DU yn adlewyrchu penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ar drothwyon, lwfansau a gostyngiadau.

54. Cyn gweithredu'r dull hwn, mae'r Llywodraeth hefyd wedi derbyn argymhelliad Comisiwn Silk i gael cyfnod pontio "i helpu i reoli trosglwyddo risg". Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r cyfnod pontio hwn bara am ddwy neu dair blynedd. Byddai'r trefniadau grant bloc yn y blynyddoedd pontio hyn yr un fath ag yn y flwyddyn gyntaf ar ôl pontio, ac eithrio heb broses cysoni diwedd blwyddyn.

Blynyddoedd pontio

55. Yn ystod y blynyddoedd pontio, byddai'r addasiad i'r grant bloc yn cael ei benderfynu yn ôl faint o refeniw trethi a gynhyrchwyd gan gyfradd treth incwm Gymreig o 10c. Hwn yw'r swm treth incwm a fyddai'n cael ei fforffedu gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i leihau'r prif gyfraddau treth incwm o 10c yng Nghymru. Prif ganlyniadau hyn yw:

- Os yw Llywodraeth Cymru'n gosod cyfradd o 10c yn ystod y blynyddoedd pontio hyn, ni fydd unrhyw effaith ar ei chyllideb o'i gymharu â'r trefniadau presennol.
- Drwy osod cyfradd o 11c neu 9c, er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru gynyddu (gyda'r naill) neu leihau (gyda'r llall) ei chyllideb o'i gymharu â'r trefniadau presennol, oherwydd byddai'r addasiad i'r grant bloc yn dal yn seiliedig ar y 10c a fforffedwyd gan Lywodraeth y DU, h.y. mae'r gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru'n newid ei refeniw trethi ond nid yw'n effeithio ar faint yr addasiad i'r grant bloc.
- Ni fyddai unrhyw risg yn cael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod pontio hwn, naill ai o ran twf y sylfaen drethi yng Nghymru na rheoli unrhyw wall darogan. Byddai'r ddwy risg hon yn cael eu trosglwyddo'n rhannol i Lywodraeth Cymru ar ôl y cyfnod pontio.

56. Bydd y refeniw trethi a gynhyrchir gan y gyfradd treth incwm Gymreig yn cael ei ddarogan gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ac yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru. Mae dau senario ar gyfer addasu'r grant bloc:

- Os yw Llywodraeth Cymru'n gosod cyfradd o 10c ym mlwyddyn 1, bydd darogan yr OBR yn penderfynu faint o

refeniw trethi a delir i Lywodraeth Cymru a hefyd faint a dynnir o'r grant bloc. Felly ni fydd unrhyw effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru o'i gymharu â'r trefniadau presennol.

- Os yw Llywodraeth Cymru'n gosod cyfradd wahanol i 10c ym mlwyddyn 1, bydd y refeniw o drethi Cymreig fydd wedi'i ddarogan gan yr OBR (yn defnyddio'r un gyfradd ag a osodwyd gan Lywodraeth Cymru) yn dal i gael ei dalu i Lywodraeth Cymru ond penderfynir yr addasiad i'r grant bloc gan ddarogan ar wahân o faint a refeniw fyddai wedi cael ei gynhyrchu gan gyfradd o 10c. Drwy osod cyfradd wahanol i 10c, gall Llywodraeth Cymru felly newid ei chyllideb (i fyny neu i lawr) o'i gymharu â'r trefniadau presennol.

57. Bydd defnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan y gyfradd Gymreig i benderfynu'r addasiad i'r grant bloc yn golygu na fydd y risg ynghylch twf y sylfaen treth incwm yn cael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru dros y cyfnod pontio. Felly hefyd, oherwydd nad oes cysoni diwedd blwyddyn yn ystod y blynyddoedd pontio, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cadw'r risg ddarogan.

58. Bydd y ddwy risg yma'n cael eu trosglwyddo'n rhannol i Lywodraeth Cymru ar ôl y cyfnod pontio, y risg ddarogan yn y flwyddyn gyntaf ar ôl pontio a'r risg dwf yn yr ail flwyddyn ar ôl pontio.

Y flwyddyn weithredol gyntaf (ar ôl pontio)

59. Yn y flwyddyn weithredol gyntaf ar ôl pontio, bydd y trefniadau grant bloc yr un fath ag yn y blynyddoedd pontio heblaw y bydd proses diwedd blwyddyn i ail-gyfrifo'r refeniw o drethi Cymreig a'r addasiad i'r grant bloc yn defnyddio ffigurau gwirioneddol (yn hytrach na darogan).

60. Bydd y broses diwedd blwyddyn hon yn trosglwyddo cyfrifoldeb rhannol am reoli'r gwall darogan i Lywodraeth Cymru. Bydd yn cymryd tua 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol unwaith fydd HMRC wedi casglu digon o wybodaeth, yn benodol gan drethdalwyr hunanasesiad. Bydd y broses hon yn golygu ail-gyfrifo'r refeniw a gynhyrchir gan y gyfradd Gymreig a'r addasiad i'r grant bloc, yn defnyddio ffigurau gwirioneddol.

61. Mae dau bwrpas i'r cysoni diwedd blwyddyn hwn:

- i sicrhau'r man cychwyn cywir ar gyfer mynegeio yn y blynyddoedd i ddilyn;

- i drosglwyddo'r risg gwall darogan gymharol i Lywodraeth Cymru, hy, cyfrifoldeb am y gwall gyda darogan y sylfaen drethi di-gynilion a di-ddifidend (NSND) yng Nghymru sy'n fwy na'r gwall darogan ar gyfer y DU yn gyffredinol.

62. Bydd unrhyw or neu dan-daliadau a nodir yn ystod y broses hon (a allai ond digwydd ym mlwyddyn 1 os gosodir cyfradd Gymreig wahanol i 10c) yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r amserlen hon yn rhoi amser i Lywodraeth Cymru gynllunio'n dilyn y broses diwedd blwyddyn hon yn hytrach na bod angen rheoli'r risgiau canol blwyddyn (sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU).

63. Er enghraifft, pe bai'r flwyddyn gyntaf ar ôl pontio'n 2013-14, byddai'r broses diwedd blwyddyn yn cael ei chyflawni ar ddechrau 2015-16 ac unrhyw or neu dan-daliadau'n cael eu cymhwysu i'r grant bloc yn 2016-17.

Blynyddoedd i ddilyn

64. Mewn blynyddoedd i ddilyn (hy, o'r ail flwyddyn ymlaen ar ôl y cyfnod pontio), bydd y swm a dynnwyd yn y flwyddyn flaenorol yn cael ei fynegeio yn erbyn unrhyw newid i sylfaen treth incwm NSND y DU. Mae hyn yn golygu pe bai sylfaen treth incwm NSND y DU yn crebachu o 2%, byddai'r addasiad i'r grant bloc yn lleihau o 2%; pe bai'r sylfaen drethi'n tyfu o 2%, byddai'r addasiad yn cynyddu o 2%.

65. Dyma brif nodweddion y dull mynegeio hwn:

- Mae'n rhoi cymhellion ac yn gwella atebolrwydd Llywodraeth Cymru oherwydd bydd perfformiad economi Cymru yn cael effaith uniongyrchol ar ei chyllideb. Hynny yw, mae'n trosglwyddo'r risg fod y sylfaen drethi NSND yng Nghymru'n tyfu ar gyfradd wahanol i'r cyfartalog ledled y DU. Yn benodol:
 - Os yw Llywodraeth Cymru'n gosod cyfradd o 10c, bydd ganddi fwy o gyllideb (nag o dan y trefniadau presennol) os yw sylfaen drethi NSND Cymru'n tyfu'n gynt na'r cyfartalog ledled y DU, ond llai os yw'r twf yng Nghymru'n fwy araf.
 - Gall Llywodraeth Cymru amrywio maint ei chyllideb ymhellach drwy osod cyfradd Gymreig sy'n uwch neu'n is na 10c (hy, unwaith eto, mae'r gyfradd a osodir gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar ei refeniw trethi ond yn effeithio dim ar faint yr addasiad i'r grant bloc).

- Mae'n gwarchod cyllideb Llywodraeth Cymru rhag ansefydlogrwydd unrhyw effeithiau macro-economaidd ledled y DU, y byddai Llywodraeth y DU mewn sefyllfa well i'w rheoli. Er enghraifft, i ddefnyddio ffigurau cwbl enghreifftiol:
 - os tybiwn fod grant bloc fformiwla Barnett Llywodraeth Cymru'n £1000 a'r addasiad i'r grant bloc yn £100 mewn blwyddyn benodol, byddai'n rhoi addasiad i'r grant bloc o £900 (£1000 llai £100);
 - yn y flwyddyn ganlynol, pe bai sylfaen drethi NSND y DU yn crebachu o 10%, byddai'r addasiad i'r grant bloc hefyd yn lleihau o 10%, o £100 i £90;
 - byddai'r addasiad i'r grant bloc felly'n cynyddu i £910 (£1000 llai £90) gan dybio nad oes symiau canlyniadol Barnett yn ddyledus. Byddai hyn, felly, yn gwrthbwysu lleihad o 10 y cant mewn refeniw o drethi Cymreig, gan sefydlogi'r gyllideb Gymreig gyfan yn erbyn effeithiau ledled y DU.

66. Fel y refeniw a gynhyrchir gan y gyfradd Gymreig, mae'r sylfaen treth incwm NSND ar gyfer y DU wedi'i darogan i ddechrau. Felly, fel ym mlwyddyn un, bydd angen cael proses diwedd blwyddyn lle caiff y refeniw o drethi Cymreig a'r addasiad i'r grant bloc eu hail-gyfrifo ar sail ffigurau gwirioneddol.

67. Ar gyfer yr ail flwyddyn ymlaen, unig bwrpas yr ail-gyfrifo hwn fydd nodi unrhyw or neu dan-daliadau gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn trosglwyddo'r risg gwall darogan gymharol, yn ogystal â'r risg dwf gymharol, i Lywodraeth Cymru o'r ail flwyddyn ymlaen.

68. Yn achos tan-daliadau, bydd cyllid ychwanegol yn cael ei dalu ochr yn ochr â grant bloc y flwyddyn ddilynol. Yr alwad gyntaf ar y cyllid ychwanegol hwn fydd ad-dalu unrhyw fenthycy cyfredol na chafodd ei dalu'n ôl. Ar ôl hyn, gall Llywodraeth Cymru gynilo'r arian hwn mewn cronfa wrth gefn neu ei ddefnyddio i gefnogi gwariant ychwanegol ar unrhyw fater datganoledig. Bydd unrhyw ordaliadau'n cael eu tynnu allan o'r grant bloc, a bydd Llywodraeth Cymru'n gallu gwrthbwysu hyn drwy ddefnyddio arian a dalwyd yn flaenorol i'r gronfa wrth gefn neu drwy fenthycy cyfredol.

69. Felly, o ddilyn y trefniadau hyn gallai Llywodraeth Cymru gadw a defnyddio cynilion mewn blynyddoedd da i wneud iawn am unrhyw

ddiffyg yn y dyfodol (fel y nodwn yn fwy manwl yn yr adran ar y gronfa wrth gefn ym mharagraff 79).

Creu trethi datganoledig newydd

70. Mae Bil Cymru'n diffinio treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi yng Nghymru fel 'trethi datganoledig'⁴. Fodd bynnag, hefyd drwy'r Bil gellid dynodi trethi pellach mewn ffordd debyg drwy is-ddeddfwriaeth. Gellid defnyddio'r pŵer hwn i ddau bwrpas:

- Fel y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno trethi newydd penodol yng Nghymru, gyda chytundeb y ddau Dŷ Seneddol a'r Cynulliad; neu
- Fel y gallai Llywodraeth y DU ddatganoli trethi presennol pellach neu drethi newydd y DU, eto gyda chytundeb y ddau Dŷ Seneddol a'r Cynulliad.

71. Byddai gallu cyflwyno trethi newydd yng Nghymru'n cynnig cyfrwng polisi newydd y gallai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i godi refeniw ychwanegol a / neu i effeithio ar ymddygiad.

72. Bydd cynigion ar gyfer trethi newydd yn cael eu hasesu yn erbyn ystod o feini prawf, gan gynnwys i ba raddau allai'r dreth newydd:

- effeithio ar bolisi ariannol neu facro-economaidd y DU a / neu'r farchnad sengl;
- efallai beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth yr UE;
- cynyddu'r risg o osgoi trethu; neu
- creu baich cydymffurfio ychwanegol i fusnesau a / neu unigolion;
- yn gyson â chyfrifoldebau datganoledig.

73. Yn gyson â'r broses a gyflwynir ynghyd â Bil yr Alban, byddai angen i unrhyw gynnig gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno treth newydd gynnwys manylion llawn am y canlynol:

- y sylfaen drethi (h.y. gweithgarwch trethadwy);
- amcan o'r refeniw a'r effaith economaidd;
- amcan o'r effaith ar refeniw'r DU neu ar y berthynas â threthi ledled y DU;
- effeithiau disgwylidig ar fusnesau ac unigolion (ân gynnwys effaith ddosbarthiadol);

⁴ Yn lle cael eu diffinio fel 'treth ddatganoledig', byddai'r dreth gyngor ac ardrethi busnes yn dod o dan 'drethiant lleol' a (chan ddibynnu ar refferendwm) byddai'r gyfradd treth incwm Gymreig yn cael ei chreu o fewn system dreth incwm y DU ac yn cael ei gweinyddu gan HMRC.

- asesiad yn erbyn yr holl ddeddfwriaeth a chyfarwydddebau perthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol, rheolau'r UE ar Gymorth Gwladwriaethol, y Ddeddf Cydraddoldeb etc; a
- cynlluniau casglu a chydymffurfio.

74. Mae'r meini prawf uchod ar gyfer asesu cynigion treth newydd yn cynnig fframwaith ar gyfer cynnal trafodaethau adeiladol. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu unrhyw gynigion o'r fath mewn ffordd amserol. Os yw Llywodraeth y DU yn penderfynu, ar ddiwedd y broses honno, peidio â rhoi pwerau i'r Cynulliad i greu treth ddatganoledig newydd, bydd yn egluro ei rhesymau.

75. Fel y nodir yn ymateb y Llywodraeth i Gomisiwn Silk, disgwylir y byddai'r effaith ar grant bloc Llywodraeth Cymru wedi'i chyfyngu i gymhwyso egwyddor o 'ddim niwed'. O dan yr egwyddor hon, byddai'r Llywodraeth yn addasu'r grant bloc ond pe bai disgwyl i dreth newydd yng Nghymru arwain at lai o refeniw i'r Trysorlys.

76. Os yw Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno treth newydd sydd ag elfen o gysondeb â meysydd datganoledig, bydd yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru i weld pa sgôp sydd i ddatganoli'r dreth honno.

Rheoli'r Pwerau i Godi Trethi

77. Byddai gan Lywodraeth Cymru offer newydd i reoli ansefydlogrwydd unrhyw refeniw o drethi datganoledig⁵ ac i ddelio ag unrhyw wall darogan (hy, lle mae'r derbynebion gwirioneddol yn wahanol i'r hyn oedd wedi'i ddarogan). Mae hyn yn cynnwys creu cronfa arian parod i Gymru ac ehangu ei phwerau benthyca i ariannu ei gwariant cyfredol. Bydd y trefniadau manwl ar gyfer rheoli pwerau trethu'n cael eu trafod â Llywodraeth Cymru a, maes o law, yn cael eu cyflwyno mewn Polisi Datganiad Cyllid diwygiedig.

78. Pe bai gwahaniaeth dros dro rhwng trethi a gwariant yn ystod y flwyddyn (ee, oherwydd ansefydlogrwydd y refeniw o drethi datganoledig) neu pe bai'r refeniw o drethi datganoledig yn is na'r darogan, gallai Llywodraeth Cymru:

- naill ai ddefnyddio arian a dalwyd yn flaenorol i'r gronfa arian parod; neu
- defnyddio ei phwerau benthyca cyfredol tymor byr (os na fyddai'r arian yn y gronfa wrth gefn yn ddigon i ateb y diffyg).

Cronfa wrth gefn

79. Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi hawl i Lywodraeth Cymru dalu unrhyw refeniw trethi dros ben i mewn i gronfa wrth gefn, i'w ddefnyddio pan fydd refeniw yn y dyfodol yn is na'r hyn oedd wedi'i ddarogan. Bydd hyn yn ffordd i Lywodraeth Cymru reoli unrhyw ansefydlogrwydd yn ei chyllideb o ganlyniad i'w phwerau trethu newydd.

80. Gallai Llywodraeth Cymru gynhyrchu arian dros ben mewn dwy ffordd: pan fydd y refeniw o drethi datganoledig yn uwch na'r hyn oedd wedi'i ddarogan; neu pan fydd y cysoni diwedd blwyddyn ar gyfer y gyfradd treth incwm Gymreig a'r addasiad cyfatebol i'r grant bloc yn penderfynu bod angen i Lywodraeth y DU dalu cyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

81. Yr alwad gyntaf ar unrhyw refeniw trethi dros ben fydd ad-dalu unrhyw fenthyca cyfredol na chafodd ei dalu'n ôl. Gellir naill ai talu unrhyw arian sy'n weddill ar ôl ad-dalu i gronfa wrth gefn, i'w ddefnyddio pan fydd refeniw yn y dyfodol yn is na'r hyn oedd wedi'i ddarogan, neu

⁵ Ni fydd angen i Lywodraeth Cymru ddelio ag ansefydlogrwydd canol blwyddyn yng nghyswllt y gyfradd treth incwm Gymreig oherwydd bydd Llywodraeth y DU yn talu dros unrhyw refeniw darogan fel bo angen yn ystod y flwyddyn.

gellir ei ddefnyddio i dalu am wariant cyhoeddus ychwanegol ar faterion datganoledig.

82. Rhaid i'r gronfa wrth gefn gael ei chadw gyda Llywodraeth y DU a bydd yn gweithredu ar wahân i'r system cyfnewid cyllidebau.

Pwerau benthycia presennol

83. Mae Bil Cymru'n rhoi hyd at £500 miliwn o bwerau benthycia presennol i Weinidogion Cymru, pwerau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu iddynt fod ar gael ochr yn ochr â threthi datganoledig o fis Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r trothwy hwn yn aros yr un fath â'r hyn a osodwyd yn GOWA 2006 ac ar wahân i'r trothwy benthycia cyfalaf £500 miliwn newydd (ac ni fydd yn bosibl cyfnewid rhwng y ddau).

84. O fewn y trothwy cyffredinol, mae Trysorlys EM wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru fenthycia hyd at £200m y flwyddyn (o 2018-19 ymlaen).

85. Mae pwerau Llywodraeth Cymru'n cael eu hehangu i gynnwys benthycia cyfredol 'canol blwyddyn' ac 'ar draws blynyddoedd'. Er y bydd y Llywodraeth yn parhau i gael trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch yr union drefniadau ar gyfer rheoli arian parod, mae Bil Cymru'n darparu fel a ganlyn:

- *benthycia cyfredol canol blwyddyn* - o dan Fesur Cymru mae Llywodraeth Cymru'n cael cadw ei phwerau benthycia canol blwyddyn, lle gall Gweinidogion Cymru fenthycia o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru fel bod gan Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) falans gweithio neu i reoli refeniw ansefydlog canol blwyddyn (lle mae'r incwm gwirioneddol yn wahanol i'r refeniw oedd wedi'i ddarogan am y mis hwnnw); a
- *benthycia cyfredol ar draws blynyddoedd* - i ddelio â'r gwahaniaeth rhwng refeniw darogan blwyddyn lawn a'r refeniw terfynol ar gyfer trethi datganoledig, mae Bil Cymru hefyd yn rhoi hawl i Lywodraeth Cymru fenthycia o'r NLF drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar draws blynyddoedd. Rhaid ad-dalu'r benthycia 'ar draws blynyddoedd' hwn o fewn 4 blynedd.

86. Mae Bil Cymru hefyd yn cynnwys pŵer lle gall Llywodraeth y DU amrywio'r trothwy cyffredinol i fyny ac i lawr (ond nid o dan y £500 miliwn cychwynol) drwy is-ddeddfwriaeth.

Benthyca Cyfalaf

87. Mae Bil Cymru'n datganoli dwy dreth – y SDLT a'r LfT. Bydd hyn yn golygu y gallai'r Cynulliad ddeddfu i gyflwyno trethi newydd yn lle'r rhain hyn yng Nghymru, gan ddarparu ffrwd referniw annibynnol i Lywodraeth Cymru (gwerth tua £200 miliwn y flwyddyn) i gefnogi ei benthyca. Felly, bydd pwerau benthyca cyfalaf newydd Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu ochr yn ochr â'r trethi datganoledig ym mis Ebrill 2018. Bydd benthyca yn erbyn y referniw hwn yn darparu mwy o hyblygrwydd ac yn dod ag elfen bellach o atebolrwydd ariannol i Lywodraeth Cymru.
88. Mae Bil Cymru'n gosod trothwy benthyca cyfalaf statudol o £500 miliwn. Ar sail yr oddeutu £200 miliwn o referniw a ddatganolir i ddechrau, mae'r trothwy hwn yn uwch na phe bai wedi'i osod ond ar sail y gymhareb trethi / benthyca a ddefnyddir yn yr Alban.
89. Yn benodol, mae trothwy benthyca cyfalaf Llywodraeth yr Alban yn £2.2bn a daw'n gyfrifol am referniw trethi sy'n werth tua £5bn ar hyn o bryd. Felly mae'r gymhareb rhwng y ddwy fymryn yn llai, sef 1:2. Byddai cymhwyso'r un gymhareb trethi / benthyca yng Nghymru wedi rhoi trothwy o tua £100m i Lywodraeth Cymru.
90. Mae hyn wedi'i gynyddu i £500 miliwn fel bod Llywodraeth Cymru'n gallu symud ymlaen â gwelliannau i'r M4 (os yw'n dewis gwneud hynny) cyn datganoli unrhyw elfen o dreth incwm. Mae'r Llywodraeth wedi barnu bod y lefel yma o benthyca'n fforddiadwy i Lywodraeth Cymru ac yng nghyswllt benthyca net a dyledion net y DU.
91. Mae Bil Cymru hefyd yn cynnwys pŵer lle gall Llywodraeth y DU amrywio'r trothwy cyffredinol i fyny ac i lawr (ond nid o dan y £500 miliwn cychwynnol) drwy fwy o ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar broses ar y cyd i adolygu lefelau cydgyfeirio gyda chyllid Cymru ym mhob Adolygiad o Wariant, ac mae Llywodraeth y DU yn cynnig ymestyn y broses i sicrhau bod y trothwy benthyca cyfalaf yn parhau i fod yn briodol. Bydd y trothwy'n cael ei osod ar lefel sydd, ym marn Llywodraeth y DU, yn briodol ar sail ei hasesiad o'r amgylchiadau economaidd ac ariannol pan gynhelir pob Adolygiad o Wariant, effaith chwyddiant ar werth go iawn y trothwy, ac ar sail faint o ffrwd referniw annibynnol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

92. O fewn y trothwy cyffredinol, mae Trysorlys EM wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru fenthycu hyd at £125 miliwn y flwyddyn (o 2018-19 ymlaen). Ynghyd â'r cap cyffredinol, mae'r trothwy blynyddol hwn yn sicrhau bod y Llywodraeth yn cadw ei rheolaeth dros gyfanswm benthycu'r sector cyhoeddus ar draws y DU. [Os caiff elfen o dreth incwm ei datganoli i Gymru, byddai'r Llywodraeth yn adolygu'r trothwy blynyddol (a'r trothwy cyffredinol) gan ddisgwyl y byddai hyn yn symud at yr hyn (10 y cant o drothwyon DEL cyfalaf pob blwyddyn) a ddefnyddir yn yr Alban.]
93. O fewn y trothwyon cyffredinol a blynyddol, bydd Llywodraeth Cymru'n gallu benthycu at unrhyw ddiben cyfalaf⁶ heb ganiatâd Trysorlys EM. Felly, byddai gan Weinidogion Cymru'r rhyddid a'r hyblygrwydd i benderfynu pryd a sut i fuddsoddi'n ychwanegol mewn seilwaith yng Nghymru i helpu i ddatblygu economi'r wlad.
94. Gall Gweinidogion Cymru fenthycu gan y NLF neu gan fanciau masnachol i ariannu eu gwariant cyfalaf. Mae Bil Cymru hefyd yn darparu y gallai Llywodraeth y DU newid y ffynonellau benthycu sydd ar gael i Lywodraeth Cymru heb ddeddfwriaeth sylfaenol, er enghraifft pe bai'n penderfynu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gallu dyroddi bondiau. Yn ddiweddar, dyfarnodd y Llywodraeth fod dyroddi bondiau'n gyson â phwerau a chyfrifoldebau ariannol Llywodraeth yr Alban fel y nodir yn Neddf yr Alban 2012. Mae'n barod i ystyried ymhellach a fyddai hyn yn briodol ochr yn ochr â'r pecyn o bwerau ariannol sydd i'w ddatganoli i ddechrau gan Fesur Cymru.
95. Cyn gweithredu pwerau benthycu cyfalaf newydd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau presennol ond mwy cyfyngedig⁷ i symud ymlaen gyda gwelliannau i'r M4 (os yw'n dewis gwneud hynny). Rhaid i'r symiau a allai Llywodraeth Cymru eu benthycu dros y cyfnod hwn gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM. Mae'r trefniant hwn, felly, yn rhoi'r opsiwn i Lywodraeth Cymru ddechrau buddsoddi yn yr M4 cyn derbyn unrhyw refeniw o drethi datganoledig. Oherwydd bod hyn fwy neu lai'n rhoi mynediad buan i Lywodraeth Cymru at ei phwerau benthycu newydd, bydd unrhyw

⁶ Gwariant a fyddai wedi'i nodi fel cyfalaf yn <https://www.gov.uk/government/publications/consolidated-budgeting-guidance>

⁷ Enillwyd y pwerau hyn pan ddaeth Awdurdod Datblygu Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru.

symiau a fenthycir o dan y pwerau presennol hyn ar ôl derbyn y Cydsyniad Brenhinol yn cyfrif tuag at y cap o £500 miliwn⁸.

⁸ Ni fydd unrhyw fenthycia hanesyddol y mae Llywodraeth Cymru'n atebol amdano pan roddir y Cydsyniad Brenhinol yn cyfrif tuag at y cap o £55 miliwn.

Trefniadau rhynglywodraethol

96. Roedd ymateb y Llywodraeth i adroddiad Rhan I y Comisiwn yn cydnabod bod angen sicrhau bod y trefniadau sefydliadol a llywodraethu'n parhau i fod yn briodol wrth i newidiadau gael eu gwneud i bwerau ariannol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Yn benodol:

- Mae'r OBR wedi cytuno i gais ffurfiol y Llywodraeth ei bod yn dechrau darogan trethi Cymreig yn Natganiad yr Hydref 2014 a phob chwe mis wedyn (ochr yn ochr â'r darogan ar gyfer trethi'r Alban). I ddechrau, bydd hyn yn cynnwys rhagolygon ar gyfer treth dir y dreth stamp, y dreth tirlenwi, y lefi ar agregau (y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei ddatganoli gan ddibynnu ar y penderfyniad mewn achos cyfreithiol yn llysoedd Ewrop) a'r gyfradd treth incwm Gymreig. Bydd yr OBR yn darogan referniw o'r trethi newydd ar gyfer y SDLT a'r LfT unwaith fydd y trefniadau ar eu cyfer yn ddigon clir;
- Bydd manylion am berthynas yr OBR â'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru'n destun trafodaethau pellach. Fodd bynnag, disgwylir iddi roi tystiolaeth o'i rhagolygon ar gyfer trethi Cymreig i'r Cynulliad. Os bydd Bil Cymru'n llwyddo i gael ei basio, bydd y Llywodraeth yn gweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu memoranda dealltwriaeth addas i gefnogi gweithredu a gweithrediad y pwerau newydd. I ddechrau, bydd hyn yn golygu trefniant rhwng HMRC a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatganoli, yn effeithlon ac effeithiol, y cyfrifoldeb am dreth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi yng Nghymru; a
- Yn gyson â'i rhaglen dryloywder, mae'r Llywodraeth yn gwbl ymrwymedig i wella'r wybodaeth fydd ar gael i helpu'r cyhoedd i ddeall beth sy'n digwydd ac i gynyddu atebolrwydd. Er enghraifft, am y tro cyntaf (mis Hydref 2013) mae HMRC wedi cyhoeddi dadansoddiad ar sail gwlad o'r trethi ledled y DU y mae'n eu casglu.

97. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cytuno â Llywodraeth Cymru i sefydlu pwyllgor Gweinidogol dwyochrog i oruchwyllo'r gwaith o drosglwyddo'r pwerau ariannol hyn. Bydd yn seiliedig ar y Cyd-bwyllgor Trysorlys (yn yr Alban) ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy lywodraeth. Un o'r blaenoriaethau cyntaf i'r Pwyllgor hwn fydd ystyried manylion pellach gweithrediad y trefniadau cyllidebol newydd, gan gynnwys yr addasiad i'r grant bloc a ddaw law yn llaw â datganoli trethi, a'r trefniadau rheoli arian parod.

Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS)

98. Newidiodd Ddeddf Lleoliaeth 2011 y ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hariannu yn Lloegr, er mwyn darparu mwy o bŵer ar lefel leol. Yn lle anfon incwm o renti i'r llywodraeth ganolog ac aros i weld pa gyfran fyddai'n cael ei dyrannu'n ôl pob blwyddyn, mae cynghorau'n cael cadw'r rhenti hyn a'u defnyddio'n lleol i gynnal eu cartrefi cymdeithasol. Mae hyn yn rhoi sail fwy sefydlog a rhagweladwy i gynllunio ar gyfer y tymor hir.
99. Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig lle mae system y Cyfrif Refeniw Tai'n parhau i fod yn ei lle. Mae darpariaethau yn Bil Tai (Cymru) Llywodraeth Cymru yn ceisio ei ddileu fel bod awdurdodau tai lleol yn dod yn hunangyllidol, gan roi mwy o hyblygrwydd iddynt wneud mwy i wella ansawdd eu tai presennol.
100. Effaith y darpariaethau perthnasol yn Bil Cymru fyddai hwyluso diwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru, drwy sefydlu sut fyddai trothwyon ar ddyledion Awdurdodau Tai Lleol yng Nghymru'n cael eu pennu. Bydd y Trysorlys yn cyflwyno pŵer newydd i roi cap ar faint o ddyled dai gyfunol y bydd yn bosibl i awdurdodau tai lleol yng Nghymru ei chronni. Bydd y Trysorlys yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gosod a diwygio'r cap ar fenthycia. Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu faint o ddyled dai y gall pob Awdurdod Tai Lleol ei chael o fewn y cap hwnnw.
101. Drwy wneud hyn bydd Llywodraeth Cymru'n gallu gweithredu ei diwygiadau a sicrhau hefyd bod lefel gyffredinol y ddyled dai fydd gan Awdurdodau Tai Lleol yng Nghymru yn adlewyrchu sefyllfa ariannol gyffredinol a chynlluniau lleihau diffyg y DU.